

<b>Thema'r Tasglu</b>	<i>Parc Rhanbarthol y Cymoedd</i>
<b>Lluniwyd y papur gan</b>	<b>Phil Lewis</b>
<b>Dyddiad</b>	<b>2 Hydref 2019</b>
<b>Cam gweithredu, fel y nodwyd yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol" Tachwedd 2017</b>	Ymchwilio i ddatblygu Parc Tirweddau'r Cymoedd (a elwir bellach yn Parc Rhanbarthol y Cymoedd). Bydd hyn yn helpu cymunedau lleol i weithio gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r trydydd sector i ddathlu cyfoeth naturiol a threftadaeth yr ardal, a gwneud y gorau ohonynt.

## Diben

Mae'r papur hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Tasglu ar y cynnydd a wnaed o ran Parc Rhanbarthol y Cymoedd, ar sail y camau a'r cerrig milltir a gyhoeddwyd yng Nghynllun Cyflawni 2018.

<b>Carreg filltir</b>	<b>Cynnydd</b>
<b>Cerrig Milltir Cynllun Cyflawni 2018</b>	
<b>VRP1 – Llywodraethiant</b>	
<b>Ionawr 2019</b> - Creu strwythur llywodraethu gyda chylch gorchwyl a gweithdrefnau gweithredu y cytunir arnynt. (VRP1)	<p>Yn dilyn trafodaethau gydag arweinwyr awdurdodau lleol y Cymoedd, gofynnodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i'r Prifddinas-Ranbarth ystyried sut y gellir gwireddu uchelgeisiau'r Parc a nodir ym Mhrospectws y Parc ac a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018, drwy bartneriaeth o awdurdodau lleol. Roedd yn gobeithio dysgu o'r dull gweithredu rhanbarthol a fabwysiadwyd gan Fargeinion Dinesig Caerdydd ac Abertawe.</p> <p>Cytunwyd ar y dull arfaethedig, a dyfarnwyd grant i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i fynd ati i symud gwaith Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn ei flaen ym Medi 2019. Mae'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21.</p> <p>Caiff y Parc ei oruchwyllo gan Fwrdd Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Bydd cynrychiolwyr gwleidyddol o bob awdurdod lleol perthnasol ar y bwrdd hwn. Trefnir y cyfarfodydd ar sail cyfarfodydd Cabinet y Prifddinas-Ranbarth.</p> <p>Y Cyng Anthony Hunt fydd yn cadeirio fforwm Parc Rhanbarthol y Cymoedd, sef cynrychiolwyr o bob un o'r 13 awdurdod lleol perthnasol ynghyd â sefydliadau partner allweddol, gan gynnwys Byrddau lechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Trydydd Sector a'r sector preifat. Cynhelir cyfarfod cyntaf Fforwm y Parc ar 24 Hydref ym Mharc Gwledig Cwm Dâr.</p> <p>Mae cytundeb cyfreithiol wedi cael ei ddrafftio, ac mae</p>

	<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i anfon at bob awdurdod lleol iddynt ei lofnodi.</p>
<p><b>VRP2 - Creu tîm brwd a dawnus</b></p>	
<p><b>Tachwedd 2019</b> - Cyflwyno cais am gyllid drwy'r Gronfa Cydweithredu a Chadwyn Gyflenwi. <b>(VRP2)</b></p>	<p>Tynnwyd y gwahoddiad i gyflwyno cais llawn i'r Gronfa Datblygu Gwledig yn ôl yn dilyn adolygiad o weithdrefnau'r Gronfa Datblygu Gwledig. Bellach, mae'n rhaid dilyn proses gystadleuol i wneud cais. Ar 16 Medi cyflwynodd tîm Tasglu'r Cymoedd fynegiant o ddiddordeb yng nghyllid y Gronfa Cydweithredu a Chadwyn Gyflenwi. Mae hyn yn cwmpasu'r ddarpariaeth gyllid ar gyfer cynllun 'gwarcheidwaid' Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Os yw'n llwyddiannus, rydym yn disgwyl cael gwahoddiad i gyflwyno cais llawn cyn y Nadolig.</p> <p>Drwy grant cymorth Parc Rhanbarthol y Cymoedd, gofynnwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gynnig opsiynau cyllid tymor canolig (y tu hwnt i 2020) i Lywodraeth Cymru eu hystyried, a gweithredu o bosibl fel prif ymgeisydd os nodir ffrydiau cyllid priodol. Os ystyrir cynnig y Gronfa Datblygu Gwledig yn briodol, gellir trosglwyddo'r cais llawn i'w arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr neu un o awdurdodau partner y Parc Rhanbarthol.</p> <p>Aed ati i gysoni sefyllfa Parc Rhanbarthol y Cymoedd â'r bargeinion dinesig, gan ddefnyddio dull partneriaeth ranbarthol a nodwyd gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, i sicrhau ei fod yn para. Er mwyn manteisio ar hyn, mae angen inni sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd fel cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cronfeydd Heriau, a synergeddau twf glân i ehangu'r dull gweithredu o ran amser a chyfleoedd eraill ar gyfer sicrhau buddsoddiad newydd.</p>
<p><b>Ionawr 2019</b> - Galw am fynegiannau o ddiddordeb i gynnal tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd. <b>Chwefror 2019</b> - Penderfynu pwy fydd yn cynnal tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd. <b>(VRP2)</b></p>	<p>Fel y nodwyd uchod, drwy drafodaethau ag arweinwyr awdurdodau lleol y Cymoedd ac â Chabinet y Prifddinas-Ranbarth, gwahoddodd tîm y tasglu Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gyflwyno cynnig i gynnal tîm cymorth Parc Rhanbarthol y Cymoedd. O ganlyniad, dyfarnwyd £892k sy'n cwmpasu'r cyfnod tan ddiwedd Mawrth 2021 drwy grant cymorth y Parc Rhanbarthol.</p> <p>Diben y Cyllid yw symud prosiect Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn ei flaen, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth cymru a'r awdurdodau lleol o fewn y Prifddinas-Ranbarth yn ogystal â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Dinas Abertawe a Chyngor Sir Caerfyrddin.</p>

<p><b>Ebrill 2019</b> - Tîm cymorth ar waith <b>(VRP2)</b></p>	<p>Datblygwyd strwythur y tîm craidd a'r disgrifiadau swydd gan Weithgor Parc Rhanbarthol y Cymoedd, dan arweiniad tîm y tasglu. Penodwyd Phil Lewis i rôl strategol a gweithredol arweiniol y Parc Rhanbarthol tan ddiwedd Mawrth 2021.</p> <p>Ar 1 Awst 2019 hysbysebwyd pedair swydd, ar sail secondiad, a fyddai wedi'u lleoli yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn anffodus, ni chafwyd llawer o ymateb, a gofynnwyd am gael ailhysbysebu ar ôl diwygio'r meini prawf. Y dyddiad cau yw 16 Hydref. O recriwtio'n llwyddiannus, disgwylir i'r swyddi hyn gael eu llenwi ddiwedd Tachwedd.</p> <p>Gofynnwyd i sefydliadau partner a rhanddeiliaid godi ymwybyddiaeth o'r rolau. Cynhaliwyd ymgyrch hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Un o'r heriau rydym yn eu hwynebu wrth geisio llenwi'r rolau yw'r ffaith eu bod dros dro, ynghyd â'r angen i recriwtio ar secondiad i leihau risg costau diswyddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.</p> <p>Cefnogir yr holl staff i weithio ar ddesgiau poeth ar draws ardal Parc Rhanbarthol y Cymoedd, ac yn benodol, i gydweithio'n agos â swyddfa'r Prifddinas-Ranbarth, a fydd yn darparu gofod penodedig a chymorth arwain ochr yn ochr â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, er mwyn sicrhau cymaint o gysylltiadau â phosibl ar draws y ddwy raglen.</p>
<p><b>VRP3 – Thema 1: Tirwedd, Diwylliant a Hunaniaeth</b></p>	
<p><b>Tachwedd 2018</b> - Dewis a chyhoeddi cam cyntaf y safle Porth Darganfod. <b>(VRP3)</b></p>	<p>Wedi'i gyflawni.</p> <p>Cadarnhawyd 9 safle Porth Darganfod yn y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 11 Rhagfyr. Ychwanegwyd 2 safle ychwanegol - Parc Penallta (Caerffili) ac Amgueddfa Fwyngloddio Cefn Coed (Castell-nedd Port Talbot) yn dilyn y broses dyfarnu grant.</p>
<p><b>Rhagfyr 2018</b> - Cytuno ar feini prawf ar gyfer Canolfannau Darganfod. <b>(VRP3)</b></p>	<p>Wedi'i gyflawni.</p> <p>Datblygwyd meini prawf o ansawdd ar gyfer y Porth Darganfod a chytunwyd arnynt, drwy sawl gweithdy ar draws y Cymoedd, a chyda Gweithgor Parc Rhanbarthol y Cymoedd, gan gynnwys holl awdurdodau lleol y Cymoedd.</p> <p>Aethpwyd ati i asesu cryfderau a gwendidau'r Porth Darganfod gyda'r awdurdodau lleol, gweithredwyr y safleoedd a Chyfoeth Naturiol Cymru. Defnyddiwyd y gwaith hwn fel sail i'r cynigion ar gyfer y grant cyfalaf.</p>

<p><b>Ionawr 2019</b> - Lansio'r gronfa buddsoddi cyfalaf catalydd (£7 miliwn dros ddwy flynedd) i gefnogi datblygiad Pwrth Darganfod. <b>(VRP3)</b></p> <p><b>Mai 2019</b> - Dyfarnu cyllid catalydd a chynlluniau datblygu'r Pwrth Darganfod ar waith. <b>(VRP3)</b></p>	<p>Wedi'i gyflawni.</p> <p>Cyflwynwyd cynigion gan bob un o'r 11 safle a chawsant eu hasesu gan banel o gydweithwyr o Dasglu'r Cymoedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Croeso Cymru ac Is-adran Amgylchedd Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd y dyfarniadau cyllid ar 11 Medi. Dangosir manylion y dyfarniadau yn y datganiad i'r wasg sydd ynghlwm, sef Atodiad 1.</p>
<p><b>Chwefror 2019</b> - Nodi a chysoni Llwybrau Darganfod gyda disgwyliadau ar gyfer cynlluniau datblygu. <b>(VRP3)</b></p>	<p>Cwblhawyd ymarfer gwerthuso a mapio cychwynnol ar gyfer y llwybrau a'r cysylltiadau rhwng safleoedd y Porth Darganfod, gyda chymorth Cyfoeth Naturiol Cymru, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a chysylltu'r safleoedd.</p> <p>Mae manylion parhad y gwaith hwn yng nghynllun gweithredu Parc Rhanbarthol y Cymoedd sydd ynghlwm, sef Atodiad 2.</p>
<p><b>Chwefror 2019</b> - Gwefan Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn cynnwys cam cyntaf y Safleoedd Darganfod ac yn amlinellu datblygiadau a chyflleoedd sydd ar waith o ran Parc Rhanbarthol y Cymoedd. <b>(VRP3)</b></p>	<p>Caiff gwefan Parc Rhanbarthol y Cymoedd ei datblygu fel rhan o'r cynllun gweithredu.</p>
<p><b>Ebrill 2019</b> - Pwyntiau gwybodaeth yn adlewyrchu lleoliadau a gweithgareddau ledled y Cymoedd wedi'u gosod a'u brandio ar y cyd yng ngham un y Pwrth Darganfod. <b>(VRP3)</b></p>	<p>Daeth adolygiad o waith brandio a marchnata a gomisiynwyd gan Weithgor Parc Rhanbarthol y Cymoedd, ac a gynhaliwyd gan gwmni marchnata SBW, i'r casgliad nad oedd modd gweithredu yn yr un ffordd yn holl safleoedd y Porth Darganfod. Mae telerau'r buddsoddiad yn safleoedd y Porth Darganfod yn ei gwneud yn ofynnol i'r safleoedd gydweithio i ddatblygu'r dull o gysylltu ar draws y Cymoedd ac o sicrhau gwelliannau yn unol â'r meini prawf y cytunwyd arnynt. Cyflawnir y gwaith hwn fel rhan o gynllun Parc Rhanbarthol y Cymoedd drwy bartneriaeth yr awdurdod lleol.</p>
<p><b>VRP4 - Thema 2: Hamdden a Lles</b></p>	
<p><b>Tachwedd 2018</b> - Cysoni gwaith Parc Rhanbarthol y Cymoedd ar lwybrau cerdded a beicio gyda datblygiadau'r Metro a chynlluniau trafndiaeth ehangach. <b>(VRP4)</b></p>	<p>Mae tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi trafod cynlluniau gyda'u cydweithwyr ym maes trafndiaeth ac wedi bod mewn cysylltiad â Sustrans Cymru hefyd. Mae Sustrans wedi llunio papur trafod ynghylch ehangu a gwella Rhwydwaith Beicio'r Cymoedd. Mae ffocws ar deithio llesol wedi'i adlewyrchu yng nghynllun gweithredu Parc Rhanbarthol y Cymoedd.</p> <p>Mae'r gwaith yn parhau gyda Trafndiaeth Cymru i ystyried sut gall Parc Rhanbarthol y Cymoedd gefnogi'r broses o ddatblygu cysylltiadau cymunedol â'r gorsafoedd a gynlluniwyd fel rhan o'r rhaglen werth £194m a gyhoeddwyd i wella gorsafoedd.</p>

<p><b>Chwefror 2019</b> - Nodi rhwydwaith Rhagnodi Cymdeithasol Gwyrdd a chynnal gweithdy datblygu cychwynnol i archwilio cyfleoedd. <b>(VRP4)</b></p>	<p>Cynhaliwyd Gweithdy ar 29 Mawrth 2019 i archwilio'r cyfleoedd i Barc Rhanbarthol y Cymoedd gyfrannu at gynyddu lles yn y Cymoedd. Drwy'r gweithdy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ rhannwyd gwybodaeth ynghylch uchelgeisiau ac amcanion Parc Rhanbarthol y Cymoedd, yn enwedig o ran ei thema Hamdden a Lles.</li> <li>▪ tynnwyd sylw at fentrau ac arferion da sydd eisoes yn bodoli ac sy'n datblygu, i'w trafod er mwyn gwella iechyd a lles. Yn benodol:             <ul style="list-style-type: none"> <li>○ sut gall Pwrth Darganfod arfaethedig Parc Rhanbarthol y Cymoedd gefnogi a datblygu cyfleoedd ar gyfer rhagnodi cymdeithasol 'gwyrdd';</li> <li>○ defnyddio'r Pwrth i ysgogi ymdrechion i wella adnoddau naturiol; a chyfleoedd ar gyfer maetheg iach;</li> <li>○ sut bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn cefnogi gweithgarwch mwy anffurfiol i hyrwyddo lles mewn cymunedau, ee clwb cerdded yn Rhondda Fawr Uchaf;</li> <li>○ yr heriau a'r cyfleoedd o ran cefnogi lles yn y sector gofal sylfaenol, gan gynnwys rôl mentrau presennol ac sy'n datblygu.</li> </ul> </li> </ul> <p>Casgliad y gweithdy oedd bod yna gefnogaeth eang i weithgarwch lles a ysbrydolir gan y dirwedd. Yr her yw deall y cyfleoedd sy'n bodoli, ac ansawdd a manteision y gweithgareddau a gynigir. Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu gan uwch-swyddog Hamdden a Lles unwaith bydd y tîm newydd yn ei le. Bydd ymgysylltu'n effeithiol â chlystyrau meddygon teulu ac â darparwyr gofal sylfaenol yn allweddol i'w lwyddiant.</p>
<p><b>VRP5 - Thema 3: Cymunedau a Menter</b></p>	
<p><b>Rhagfyr 2018</b> - Nodi ac ymgysylltu â sefydliadau yn y gymuned, gan gynnwys grwpiau treftadaeth drwy strategaeth gyfathrebu effeithiol. <b>(VRP5)</b></p>	<p>Cwblhawyd gwaith mapio cychwynnol i lywio'r broses o ddatblygu'r digwyddiad arddangos cymunedol ym mis Chwefror 2019. Bydd angen gwneud mwy o waith mapio ac ymgysylltu - bydd hynny'n flaenoriaeth - unwaith caiff rôl uwch-swyddog Cymunedau a Menter ei llenwi. Bydd hyn yn seiliedig ar y gwaith ymgysylltu a wnaed dan arweiniad tîm y tasglu.</p>
<p><b>Mawrth 2019</b> - Rhwydwaith cymheiriaid i gymheiriaid i gefnogi a chynnal grwpiau cymunedol. <b>(VRP 5)</b></p>	<p>Gwahoddwyd grwpiau cymunedol i ddigwyddiad arddangos cymunedol ar 14 Chwefror. Yn sgil hyn, crewyd rhwydwaith cymheiriaid i gefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau o fewn grwpiau sy'n arwain prosiectau cymunedol a ysbrydolir gan y dirwedd, ac i rannu arferion gorau a chefnogi coetsio a mentora. Caiff y rhwydwaith hwn ei gydyntu, ei hwyluso a'i gefnogi gan dîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd.</p>
<p><b>Mawrth 2019</b> - Prosiect Skyline yn cael ei gefnogi gyda chymorth mapio a logistaidd priodol. <b>(VRP 5)</b></p>	<p>Mae tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi cefnogi Prosiect Skyline, gan gynnal nifer o gyfarfodydd a mapio'n briodol drwy gydweithwyr yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Disgwylir i adroddiad Prosiect Skyline gael ei gyhoeddi yn fuan.</p>

	<p>Disgwylir i'r hyn a ddysgwn drwy Skyline, yn enwedig o ran stiwardiaeth tir cymunedol, gefnogi amcanion y Parc i'r dyfodol.</p>
<p><b>VRP9 - Canllawiau a chefnogaeth o ran cyllid</b></p>	
<p><b>Rhagfyr 2018</b> – Bydd tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn gweithio gydag adrannau Llywodraeth Cymru i adlewyrchu'r canlyniadau dymunol mewn perthynas â rhaglenni cyllid (Croeso Cymru, Byw'n Iach ac Egniol, Teithio Llesol a Galluogi Cyfoeth Naturiol a Lles), a chyfrannu at werthuso cynigion yn y dyfodol. <b>(VRP9)</b></p>	<p>Mae tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes Twristiaeth a'r Amgylchedd i ddylanwadu ar ffocws y polisi i adlewyrchu amcanion a gweledigaeth y Parc. Yn benodol, mae'r tîm wedi bod yn rhan o'r gwaith o asesu ceisiadau grant Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth a Galluogi Cyfoeth Naturiol a Lles.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaethau gyda chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru, sydd wedi cytuno y bydd tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn rhan o'r gwaith o asesu cynlluniau grant priodol.</p> <p>Bydd gan y tîm cymorth a gaiff ei sefydlu y rôl o dynnu ynghyd wybodaeth am ffynonellau cyllid ac o helpu partneriaid a chymunedau i sicrhau cyllid priodol.</p>
<p><b>Chwefror 2019</b> - Cronfa ddata o raglenni cyllid a sefydliadau ar waith ac yn cael ei rhannu gyda rhwydwaith ymgysylltu Parc Rhanbarthol y Cymoedd. <b>(VRP9)</b></p>	<p>Mae tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi cwrrd â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n arwain o ran y cyllid perthnasol, yn ogystal â sefydliadau cyllid allanol fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Chronfa Gymunedol Pen y Cymoedd.</p> <p>Bydd tîm cymorth Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn datblygu cynigion ar gyfer rhannu gwybodaeth am gyllid.</p>
<p><b>Mawrth 2019</b> – Datblygu rôl yn nhîm cymorth newydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd gyda ffocws ar gyllid. Bydd hyn yn gweithio gyda phob sector i archwilio a datblygu cyllid a chyfleoedd buddsoddi ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd. <b>(VRP9)</b></p>	<p>Caiff hyn ei roi ar waith unwaith y bydd y tîm cymorth yn ei le. Mae angen ystyried ymhellach pa gyngor sydd ar gael eisoes. Bydd tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn gweithio gyda phartneriaid i gytuno ynghylch y ffordd orau o gyflawni'r swyddogaeth gymorth hon.</p>

**Atodiad 1 - Cyllid Parc Rhanbarthol y Cymoedd 11 Medi 2019**

**Atodiad 2 - Cynllun Cyflawni Parc Rhanbarthol y Cymoedd i'w gynnwys yn niweddariad Cynllun Cyflawni'r Tasglu i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2019**